***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 40. (See end of Document for details)*

ATODLEN 7

PARTNERIAETHAU

## RHAN 9

CYMHWYSO ESEMPTIADAU, RHYDDHADAU, DARPARIAETHAU DCRHT A DARPARIAETHAU HYSBYSU

*Cymhwyso rhyddhad grŵp*

40 (1) Mae Atodlen 16 (rhyddhad grŵp) yn gymwys i—

(a) trafodiad y mae paragraff 13 yn gymwys iddo, a

(b) trafodiad sy'n drafodiad trethadwy yn rhinwedd paragraff 18,

gyda'r addasiadau a ganlyn.

(2) Mae paragraff 8 yn cael effaith fel pe bai—

(a) yn is-baragraff (2)(a), "pan fo partner a oedd yn bartner ar y dyddiad yr oedd y trafodiad a ryddheir yn cael effaith ("y partner perthnasol")" yn cael ei roi yn lle "pan fo'r prynwr";

(b) y canlynol yn cael ei roi yn lle is-baragraff (2)(b)—

"(b) ar yr adeg y mae'r partner perthnasol yn peidio â bod yn aelod o'r un grŵp â'r gwerthwr ("yr adeg berthnasol"), pan fo buddiant trethadwy yn cael ei ddal gan aelodau'r bartneriaeth neu ar eu rhan a bod y buddiant trethadwy hwnnw—

(i) wedi ei gaffael gan y bartneriaeth neu ar ei rhan o dan y trafodiad a ryddheir, neu

(ii) yn deillio o fuddiant trethadwy a gaffaelwyd felly,

ac nad yw wedi ei gaffael wedi hynny am ei werth marchnadol o dan drafodiad trethadwy yr oedd rhyddhad grŵp ar gael mewn perthynas ag ef, ond nas hawliwyd.";

(c) yn is-baragraff (4), "a ddelir gan neu ar ran y bartneriaeth ac i'r gyfran y mae gan y partner perthnasol hawl iddi ar yr adeg berthnasol wrth rannu elw incwm y bartneriaeth" yn cael ei roi yn lle'r geiriau o "y mae'r cwmni" hyd y diwedd;

(d) yn is-baragraff (5), y diffiniad o "cwmni cyswllt perthnasol" wedi ei hepgor.

(3) Mae paragraffau 9 i 14 yn cael effaith fel pe bai "y partner perthnasol" yn cael ei roi yn lle "y prynwr"(bob tro y mae'n digwydd).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 7 para. 40 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 7 para. 40 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 40.